Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru

Chwefror 2026

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
X: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru

Chwefror 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

Cyfrannodd yr Aelodau a ganlyn at y gwrandawiad cyn-enwebu yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.



**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Casgliad** ..... **6**

**1. Cyflwyniad** ..... **7**

Archwilydd Cyffredinol Cymru ..... 7

Manyleb y swydd a'r person ..... 8

Anghymhwyso statudol a chyfyngiadau ar ôl penodi i'r swydd ..... 11

Y broses recriwtio ..... 11

**2. Yr ymgeisydd a ffefrir** ..... **14**

**Atodiad 1 : Hanes gyrfa – Catherine Mealing-Jones** ..... **15**

**Atodiad 2 : Ymatebion gan gyrff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru** ..... **17**

Un Llais Cymru (Saesneg yn unig) ..... 17

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ..... 18

# Rhagair y Cadeirydd

Mae rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhan hanfodol o fywyd cyhoeddus Cymru. Fel deiliad swydd annibynnol, wedi'i benodi gan Ei Fawrhydi Y Brenin ar enwebiad y Senedd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod ein cyrff cyhoeddus yn rheoli arian cyhoeddus gydag effeithlonrwydd, tryloywder, a'r safonau llywodraethiant uchaf. Mae'r annibyniaeth hon yn hanfodol i uniondeb y swyddogaeth archwilio, ac yn ganolog i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y ffordd y mae Cymru'n cael ei llywodraethu.

Mae Adrian Crompton wedi gwasanaethu fel Archwilydd Cyffredinol am yr wyth mlynedd diwethaf. Ar ran y Pwyllgor, hoffwn estyn ein diolch diffuant iddo am ei arweinyddiaeth a'i gyfraniad sylweddol at archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Dechreuodd y Pwyllgor y broses recriwtio ar gyfer Archwilydd Cyffredinol newydd y llynedd. Ym mhob cam, roeddem yn ymwybodol o ddisgwyliad clir pobl Cymru y dylid ymgymryd â phenodiad o'r fath gyda thryloywder, trylwyredd ac annibyniaeth llwyr.

O dan Reol Sefydlog 10.6, gall y Pwyllgor Cyllid ofyn am dystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir cyn penderfynu a ddylid cefnogi ei benodiad. Rydym o'r farn bod gwrandawiad cyn enwebu yn fecanwaith hanfodol ar gyfer darparu gwaith craffu agored a thryloyw, gan gryfhau sicrwydd y Senedd mai'r ymgeisydd a argymhellir yw'r person mwyaf addas i gael ei enwebu i'r Goron. Er mwyn sicrhau hyder yn y broses, cynhaliwyd y gwrandawiad hwn ar y cyd ag Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn ystod y gwrandawiad, cafodd yr ymgeisydd ei holi gan Aelodau o'r naill bwyllgor a'r llall am ei brofiad proffesiynol, ei ddull o ddiogelu annibyniaeth archwilio, a'i uchelgeisiau ar gyfer dyfodol Archwilio Cymru. Cawsom ein helpu gan hyn i asesu nid yn unig gallu technegol yr ymgeisydd dewisol, ond hefyd gweledigaeth yr ymgeisydd ar gyfer hyrwyddo proses archwilio cyhoeddus o ansawdd uchel yng Nghymru.

Ar ôl ystyriaeth ofalus, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod Catherine Mealing-Jones yn hynod addas i gyflawni'r rôl arwyddocaol a heriol hon. Dymunwn bob llwyddiant iddi wrth iddi ymgymryd â'r cyfrifoldebau pwysig hyn, os bydd ei henwebiad yn mynd rhagddo.

**Peredur Owen Griffiths AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Casgliad

**Casgliad 1.** Ar 29 Ionawr 2026 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawiad cyn-enwebu gyda Catherine Mealing-Jones, yr ymgeisydd a ffefrir gan y panel cyfweld ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod Catherine Mealing-Jones yn ymgeisydd addas i'w henwebu i'w Fawrhydi, i'w phenodi'n Archwilydd Cyffredinol Cymru. ........................................................................ Tudalen 14

# 1. Cyflwyniad

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

**1.** Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd) yn un o benodiadau'r Goron, yn dilyn enwebiad gan y Senedd o dan Adran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013).[1] Mae'r Archwilydd presennol, Adrian Crompton, wedi dal y swydd ers 21 Gorffennaf 2018.

**2.** Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, a'r archwilydd yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru (y Swyddfa Archwilio) (er nad yn gyflogai). Mae'r Archwilydd yn gorfforaeth unigol.

**3.** Cynrychiolir y Swyddfa Archwilio gan fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd Anweithredol, aelodau Anweithredol eraill, aelod a benodir o blith y gweithwyr cyflogedig a dau aelod etholedig o blith y gweithwyr cyflogedig. Mae'r Archwilydd hefyd yn aelod.

**4.** Fel y nodir yn Neddf 2013[2], mae'r Archwilydd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, y Senedd a chyrff eraill a archwilir, ac nid yw'n ddarostyngedig i'w cyfarwyddyd na'u rheolaeth.

**5.** Mae prif swyddogaethau'r Archwilydd wedi'u nodi yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998[3] a 2006[4], Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004[5], Deddf 2013[6], Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7], Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021[8] a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chyrff a archwilir. I grynhoi, mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi, cyrff cyhoeddus anweinidogol Cymru, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol a Chomisiwn y Senedd;

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)
[2] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)
[3] Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
[4] Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
[5] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
[6] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)
[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2)
[8] Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1)

- archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('astudiaethau gwerth am arian') cyrff cyhoeddus Cymru a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Senedd;
- archwilio a yw'r rhan fwyaf o brif gyrff cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a cheisio cyflawni amcanion llesiant.

**6.** Mae'r Archwilydd yn gweithio'n agos gyda Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) y Senedd, ac mae'n ofynnol iddo ystyried ei farn wrth benderfynu sut i arfer swyddogaethau mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried cyfrifon ac adroddiadau gwerth am arian a gyflwynir gerbron y Senedd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**7.** Mae gan y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) gyfrifoldebau goruchwylio mewn perthynas a'r Archwilydd a'r Swyddfa Archwilio (wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 a 18.11)[9], felly mae disgwyl i'r Archwilydd Cyffredinol ymddangos gerbron y Pwyllgor pan fo angen.

## Manyleb y swydd a'r person

**8.** Mae'r penodiad am gyfnod swydd sengl, na ellir ei adnewyddu, o wyth mlynedd, yn unol ag adran 2 o'r Ddeddf 2013.[10]

**9.** Wrth ystyried recriwtio'r Archwilydd, trafododd y Pwyllgor y trefniadau taliadau yn unol ag adran 7 o'r Ddeddf 2013.[11] Cytunodd y Pwyllgor i hysbysebu'r swydd gyda chyflog o £165,871. Caiff y cyflog ei gynyddu ar ddyddiad dechrau'r penodiad (21 Gorffennaf 2026), ac yn flynyddol ar y dyddiad hwnnw, yn ôl y newid canrannol amcangyfrifedig yn y data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar yr enillion canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi cyflogeion llawn amser yng Nghymru, fel y'u cyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn amodol ar derfyn isaf ac uchaf o 0 y cant a 3 y cant.

**10.** Nododd y disgrifiad swydd fod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos y canlynol:

- Dealltwriaeth ddatblygedig iawn o faterion archwilio cyhoeddus (gan gynnwys ei rôl strategol mewn craffu ac atebolrwydd); profiad o gynnal a

[9] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[10] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)
[11] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)

gwella safonau atebolrwydd ariannol ac uniondeb ar lefel prif swyddog, cyfarwyddwr neu aelod o fwrdd o fewn sefydliad ac o ddarparu cyngor i eraill ar faterion o'r fath;

- profiad fel uwch arweinydd yn rheoli sefydliad cymhleth gyda chyllideb gwerth miliynau o bunnoedd a nifer sylweddol o staff gyda set amrywiol o sgiliau;
- profiad o ddatblygu gweledigaeth strategol a bod yn atebol am ei gweithredu;
- profiad o weithio ar y cyd â Bwrdd, gan gynnwys aelodau anweithredol, a chefnogi ei swyddogaethau llywodraethu;
- dealltwriaeth o Egwyddorion Nolan a safonau moesegol, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr, ac ymrwymiad iddynt;
- dealltwriaeth o'r system lywodraeth ddatganoledig a lleol yng Nghymru a'r cyd-destun gwleidyddol y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu ynddo;
- dealltwriaeth o gyfle cyfartal a gallu profedig i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant a chanfod a herio arferion gwahaniaethol, ac ymrwymiad i hynny;
- gwerthfawrogiad o bwysigrwydd yr amgylchedd dwyieithrwydd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio ynddo; a hefyd
- profiad o weithredu gyda phroffil cyhoeddus personol a'r gallu i reoli perthnasoedd â'r cyfryngau.

**11.** Nododd manyleb y swydd hefyd y byddai'n ddymunol i ymgeiswyr ddangos y canlynol:

- Gallu profedig i gyflawni gwaith archwilio'r sector cyhoeddus ar lefel uwch;
- profiad o reolaeth ariannol strategol;
- profiad o arwain archwiliad gwerth am arian ac archwilio datganiadau ariannol;
- y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**12.** Yn ogystal, roedd manyleb y swydd yn nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â gallu profedig o ran y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth strategol a dangos rheolaeth effeithiol o sefydliad sector cyhoeddus proffil uchel;
- cynrychioli, dylanwadu a thrafod yn effeithiol ar lefel uwch i sicrhau bod eu Swydd a'u sefydliad yn cael eu hystyried yn gredadwy, awdurdodol, atebol a thryloyw;
- dangos crebwyll da, uniondeb personol, annibyniaeth, cysondeb a phenderfynoldeb wrth ymdrin â materion sensitif a phwysig, fel y rhai a allai ddeillio o archwiliadau;
- meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol ac ymddiriedaeth gyda gwleidyddion a/neu uwch swyddogion;
- datblygu a chyfleu gweledigaeth strategol, nodau ac amcanion y sefydliad yn effeithiol;
- gweithio gyda Bwrdd i ddatblygu hygrededd, atebolrwydd a thryloywder gwaith ei sefydliad;
- canolbwyntio ar wasanaeth o ansawdd hirdymor tra'n cydbwyso gofynion rhanddeiliaid allweddol sy'n aml yn gwrthdaro neu'n cystadlu;
- arwain ar newid a datblygiad sefydliadol, gan gynnwys drwy ddefnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg; a hefyd
- ysbrydoli hyder fel Swyddog Cyfrifyddu neu gyfwerth.

**13.** Wrth gyflawni'r cymwyseddau hyn, ychwanegodd manyleb y swydd y byddai angen i'r canlynol fod yn wir o ran yr ymgeisydd llwyddiannus:

- Bod yn weledigaethol, gan adeiladu ac ysbrydoli gwaith tîm i gyflawni gweledigaeth y sefydliad;
- meddwl yn strategol a blaengar;
- bod yn feddyliwr ac yn ysgogydd cadarnhaol gydag effaith bersonol uchel;
- bod yn benderfynol ac yn gynhwysol;

- gallu addasu a bod yn arweinydd newid;
- gallu grymuso, mynnu perfformiad uchel a chydnabod llwyddiant;
- bod yn gyfathrebwr gwych, gallu meithrin teyrngarwch ac ymddiriedaeth; a hefyd
- bod yn hunan-ymwybodol, emosiynol ddeallus, a diplomyddol.

## Anghymhwyso statudol a chyfyngiadau ar ôl penodi i'r swydd

**14.** Mae adran 4 o Ddeddf 2013[12] yn anghymhwyso unrhyw un rhag bod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru os yw'r canlynol yn gymwys:

- Mae'n aelod o Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon;
- mae'n ddeiliaid unrhyw swydd y gellid penodi person iddi, neu y gellid ei argymell neu ei enwebu i'w penodi iddi, gan neu ar ran y Goron, y Senedd neu Gomisiwn y Senedd,
- mae'n gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**15.** Mae manylion llawn anghymhwyso statudol a chyfyngiadau ar ôl penodi i'r swydd, wedi'u nodi yn adrannau 4 a 5 o Ddeddf 2013.[13]

**16.** Mewn perthynas ag adran 5(3) o Ddeddf 2013[14], at ddibenion adran 5(2), penderfynodd y Pwyllgor Cyllid beidio â phennu gofynion pellach ar gyn-Archwilydd Cyffredinol heblaw am y rheini a osodwyd eisoes gan adran 5.

## Y broses recriwtio

**17.** Hysbysebwyd y rôl ar 19 Medi 2025 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 31 Hydref 2025.

**18.** Er mwyn annog maes cryf ac amrywiol o ymgeiswyr, ac yn dilyn proses gaffael gadarn, cytunodd y Pwyllgor i benodi Saxton Bampfylde, asiantaeth chwilio gweithredol, i ymgymryd â rhai agweddau ar y broses recriwtio, gan gynnwys y canlynol:

[12] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)
[13] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)
[14] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)

- Hysbysebu'r rôl;
- nodi ymgeiswyr posibl a chysylltu â hwy,
- sifftio ymgeiswyr ymlaen llaw, gan ddarparu adroddiad cryno i'r panel, a hefyd
- cynnal cyfweliadau rhagarweiniol.

**19.** Hysbysebwyd y rôl hefyd gan ddefnyddio cyfuniad o ddeunydd wedi'i argraffu, cyhoeddiadau electronig, y cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol. Gosodwyd yr hysbyseb mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys y canlynol:

- Gwefan y Senedd a ffrydiau cyfryngau cymdeithasol y Pwyllgor Cyllid/Senedd;
- gwefan Archwilio Cymru;
- Jobs in Wales;
- Times online.

**20.** Roedd y ffenestr ar gyfer ceisiadau ar agor am chwe wythnos ac roedd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau, holiadur gweithgaredd gwleidyddol a CV manwl. Cafwyd deuddeg cais, gan ddwy fenyw a deg dyn.

**21.** Cynhaliwyd cyfarfod rhestr hir gan y panel llawn ar 10 Tachwedd 2025. Cynhaliwyd cyfweliadau rhagarweiniol, wedyn, gan Saxton Bampfylde, gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr hir.

**22.** Cytunodd y panel ar restr fer o ymgeiswyr ar 27 Tachwedd 2025, a dewiswyd pedwar o'r deg ymgeisydd ar y rhestr hir i'w cyfweld. Tynnodd un ymgeisydd ei gais yn ôl cyn i'r cyfweliadau fynd rhagddynt.

**23.** Dyma aelodau'r panel:

- Cadeirydd – Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid);
- Mark Isherwood AS (Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus);
- Dr Ian Rees (Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru);

- Lynn Pamment CBE (Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Jersey).

**24.** Cafodd ymgeiswyr a gyrhaeddodd y rhestr fer gyfarfod anffurfiol gydag Archwilydd Cyffredinol presennol Cymru i drafod y swydd, cyn eu cyfweliad gyda'r panel dethol.

**25.** Cynhaliwyd cyfweliadau ar 16 Ionawr 2026, lle holwyd ymgeiswyr ynghylch y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd. Cynhaliwyd Asesiadau Gweithredol, a gynlluniwyd i fesur y sgiliau, yr ymddygiadau a'r priodoleddau sy'n ofynnol ar gyfer rolau arweinyddiaeth uwch, gan Saxton Bampfylde gyda'r ymgeiswyr hefyd.

**26.** Gwnaeth y panel argymhelliad i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch yr ymgeisydd a ffefrir ganddo ar gyfer enwebiad, a chynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn enwebu gyda'r ymgeisydd dewisol, Catherine Mealing-Jones, ar 29 Ionawr 2026.

**27.** Yn unol ag Adran 2(3) o Ddeddf 2013[15], ymgynghorodd y Pwyllgor Cyllid â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru ac Uned Gyswllt yr Heddlu (fel cyrff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru) cyn gwneud enwebiad i'r Senedd ar gyfer penodi. Mae'r ymatebion yn Atodiad 2.

[15] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3)

# 2. Yr ymgeisydd a ffefrir

**29.** Cynhaliodd y Pwyllgor y gwrandawiad cyn-enwebu gyda'r bwriad o ddeall cymhwysedd proffesiynol Catherine Mealing-Jones, sut mae hi'n bwriadu ymgymryd â'r rôl a'r profiad a'r arbenigedd y byddai'n eu cynnig i'r swydd. Mae CV Catherine Mealing-Jones wedi'i atodi fel Atodiad 1.

**30.** Yn ystod y gwrandawiad, archwiliodd y Pwyllgor y meysydd canlynol:

- Cefndir a phrofiad proffesiynol yr ymgeisydd, a hefyd
- gwaith y Swyddfa Archwilio, a'i dyheadau.

**31.** Mae trawsgrifiad o'r sesiwn dystiolaeth ar gael ar dudalennau gwe y Pwyllgor Cyllid.[16]

**Casgliad 1.** Ar 29 Ionawr 2026 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawiad cyn-enwebu gyda Catherine Mealing-Jones, yr ymgeisydd a ffefrir gan y panel cyfweld ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod Catherine Mealing-Jones yn ymgeisydd addas i'w henwebu i'w Fawrhydi, i'w phenodi'n Archwilydd Cyffredinol Cymru.

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2026

# Atodiad 1: Hanes gyrfa – Catherine Mealing-Jones

**Catherine Mealing-Jones FCPFA FRAeS**

Gyrfa hyd yma

*Gorffennaf 2021-Presennol Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*

*Yn gyfrifol am redeg, ailadeiladu a darparu cyfeiriad strategol a hunaniaeth newydd ar gyfer yr Awdurdod Lleol Diben Arbennig hwn (tua 110 o staff cyfwerth ag amser llawn; cyllideb weithredol o £8.3m)*

*Ebrill 2014 - Gorffennaf 2021 Cyfarwyddwr Twf, Asiantaeth Ofod y DU*

*Arwain strategaeth gofod yn gweithio ar draws y llywodraeth. Darparu ffocws ar strategaeth ddiwydiannol, gan gynnwys agor marchnadoedd newydd i'r DU,*

*Ionawr 2012 - Ebrill 2014 Cyfarwyddwr Twf, Cymwysiadau a Rhaglenni'r UE, Asiantaeth Ofod y DU*

*Darparu arweinyddiaeth ar gyfer gweithgarwch a buddsoddiad twf yn y sector gofod. Sicrhau bod y DU yn llwyddo i gael rheolaeth effeithiol o raglenni gofod yr UE. Arwain ar bolisi gofod Ewropeaidd. Arwain ar waith ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd.*

*2008-2012 Cyfarwyddwr, Newid Busnes a Thechnoleg, Llu'r Ffiniau, Asiantaeth Ffiniau'r DU*

*Arwain y Portffolio Newid Busnes a Thechnoleg o fewn y Rhaglen Datblygu Ffiniau a greodd Llu Ffiniau'r DU. Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu a chyflwyno technoleg yn bodloni amcanion y rhaglen i wella perfformiad a sicrhau arbedion o rhwng £65m ac£85m erbyn 2014. Arwain ar waith ymchwil a datblygu a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg a rheoli gallu strategol ar gyfer Llu'r Ffiniau gan gynnwys technoleg awtomataidd, biometreg, arolygu anymwthiol, TGCh a systemau a thechnolegau gwyliadwriaeth a chymhorthion gwyddonol. Cyllideb o tua £20m, tîm craidd o 90 o staff gyda chyfrifoldeb rheoli matrics ar gyfer cronfa hyblyg o arbenigwyr technegol a chontractwyr.*

Cymwysterau a Phrofiad Proffesiynol

- Cymrawd, Cyfrifydd Cyllid Cyhoeddus Siartredig

- Cymrawd, Cymdeithas Awyrenneg Frenhinol
- Aelod o’r Bwrdd Gweithredol, Asiantaeth Ofod y DU (2012–2021)
- Cadeirydd, Bwrdd Cyfathrebu ar y cyd ESA a Bwrdd Rhaglen Llywio (2014–17)
- Aelod Lleyg o’r Cyngor, Prifysgol Caerfaddon (Pwyllgor Cyllid 2016-2024; Pwyllgor Archwilio; Pwyllgor Taliadau; Pwyllgor Enwebiadau)
- Graddedig o Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau a Rhaglen Arweinyddiaeth Prosiectau Prifysgol Cranfield
- Rhaglen Arweinyddiaeth Windsor
- Cyfarwyddwr Anweithredol, Satellite Applications Catapult (2013–15)
- Cadlywydd Aur, Coleg Plismona Cenedlaethol
- Cynllun Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Swyddfa’r  Cabinet
- Diploma Ôl-raddedig, Cyllid Cyhoeddus ac Arweinyddiaeth (Ysgol Fusnes Warwick)
- MSc, Gwleidyddiaeth Ewropeaidd (Prifysgol Brunel)
- BA (Anrh), Saesneg (Coleg Bedford)

# Atodiad 2: Ymatebion gan gyrff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru

## Un Llais Cymru (Saesneg yn unig)

Good afternoon,

I have consulted with senior colleagues in One Voice Wales and members of our National Executive Committee regarding Catherine Mealing-Jones as the preferred candidate for nomination as the Auditor General for Wales.

We have no comments to make and as such would support the nomination.

I have copied in our Deputy CEO Mr Paul Egan, our Chair Cllr Mike Theodoulou and our Vice Chair Cllr Gordon Hughes for their information.

Kind regards,

**Mr Lyn Cadwallader**
**Prif Weithredwr**
**Un Llais Cymru**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

CLlLC
WLGA

**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:

Dyddiad / Date: 19th Chwefror / February 2026

Gofynnwch am / Please ask for: Chris Llewelyn

Llinell uniongyrchol / Direct line: [redacted]

Ebost / Email: [redacted]

Peredur Owen Griffiths AoS
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad ar yr Ymgeisydd a Ffefrir i gael ei Enwebu'n Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Diolch i chi am wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gyfrannu at ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar yr ymgeisydd a ffefrir i gael ei enwebu'n Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwyf yn ysgrifennu i gadarnhau sefyllfa CLlLC yn ffurfiol yn dilyn ystyried gohebiaeth y Pwyllgor. Nid oes gan CLlLC unrhyw wrthwynebiad i benodi'r ymgeisydd a ffefrir.

Mae CLlLC yn cydnabod pwysigrwydd rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi sicrwydd annibynnol, hyrwyddo llywodraethu da a chefnogi gwelliant parhaus yn holl sector cyhoeddus Cymru, yn cynnwys llywodraeth leol. Felly, rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at broses oruchwylio'r Pwyllgor.

Rwyf yn gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth gwblhau ei adroddiad. Mae croeso i chi gysylltu â mi os byddai eglurhad pellach o gymorth.

Yn ddiffuant,

Chris Llewelyn
Prif Weithredwr CLlLC

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA